MEMORANDWM ESBONIADOL AC ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL I REOLIADAU GRANTIAU A BENTHYCIADAU DYSGU Y CYNULLIAD (ADDYSG UWCH) (CYMRU) (RHIF 2) (DIWYGIO) 2009.

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol gan Is-adran Ariannu a Chyllid Myfyrwyr yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Reol Sefydlog 24.1.

Disgrifiad

1. Mae angen y Rheoliadau hyn er mwyn gwneud mân ddiwygiadau i *Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008 (Rhif 3170 (Cy.283)* a ddaeth i rym ar 9 Ionawr 2009.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

2. Bu'r Pwyllgor yn ystyried Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008 ar 2 Ionawr 2009. Tynnodd y Pwyllgor sylw at y materion a ganlyn:

- Mae testun Saesneg rheoliad 3(9) yn dod i ben gan gyfeirio at 1 Medi 2009, ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at 2008.
- Mae testun Saesneg rheoliad 10(2)(b) yn cynnwys yr ymadrodd “or is applying for an additional amount of fee loan under regulation 21(3) or 21(7),” ond mae'r testun Cymraeg yn dweud “neu os yw'n ceisio am swm ychwanegol o fenthyciad at ffioedd o dan reoliad 21(6) neu 21(8),”.
- Mae testun Saesneg paragraff 5(1)(a) o Atodlen 6 yn cynnwys yr ymadrodd “in any case where the household income exceeds £39,793” ond mae'r testun Cymraeg yn dweud “mewn unrhyw achos lle mae incwm yr aelwyd dros £39,780”.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cywiro'r gwallau uchod cyn gynted ag yr oedd modd. Ymatebodd Llywodraeth y Cynulliad trwy ymrwymo i sicrhau bod y cywiriadau'n cael eu gwneud cyn 1 Medi 2009 fan bellaf, sef dechrau'r flwyddyn academaidd y mae'r Rheoliadau'n berthnasol iddi. Dyma ddiben y Rheoliadau diwygio hyn, er bod y rheoliadau, yn ogystal, yn cywiro pum mân wall arall a welwyd wedyn yn Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008.

Cefndir Deddfwriaethol

3. Ym mis Mehefin 2006, cafodd y rhan fwyaf o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol ym maes cymorth i fyfyrwyr (yn y bôn, swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 22 a 23 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998) eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Rhoddodd adrannau 47 a 52 o Ddeddf 2004 bŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, trwy orchymyn, i ddod ag adran 44 i rym. Y Gorchymyn perthnasol sy'n dod â gwahanol is-adrannau adran 44 i

rym yw Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006. Erbyn hyn, mae'r rhai hynny o swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru trwy rinwedd Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

4. Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn Penderfyniad Negyddol.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

5. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwneud rheoliadau blynyddol sy'n llywodraethu'r system cymorth i fyfyrwyr mewn Addysg Uwch. Yn gyffredinol, mae pob set o reoliadau'n ymwneud ag un flwyddyn academaidd neilltuol. Bydd y Rheoliadau diwygio hyn yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol a fydd yn llywodraethu blwyddyn academaidd 09/10 (yn neilltuol, trefniadau cymorth i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sy'n preswylio yng Nghymru fel arfer ac ar gyfer myfyrwyr o'r UE sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru).

6. Diben y rheoliadau diwygio hyn yw cywiro tri gwall yn *Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008 (Rhif 3170 (Cy.283))* a ganfuwyd gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. Yn ogystal, bydd y rheoliadau diwygio'n cywiro pum mân wall neu wall teipio arall yn y rheoliadau a enwir uchod. Bydd y diwygiadau yn eu tro yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyfarnu grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr cymwys yn y ffordd briodol.

Gweithredu

7. Os na wneir y ddeddfwriaeth hon, bydd y mân wallau a'r gwallau teipio a ganfuwyd yn Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008 gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn parhau ar y llyfr statud. Felly, byddai peidio â gwneud y rheoliadau diwygio hyn yn cael effaith niweidiol ar weithrediad y system cymorth i fyfyrwyr ym mlwyddyn academaidd 2009/10. Mae'r partneriaid cyflenwi (y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r awdurdodau lleol) wedi cael gwybod am y newidiadau y bwriedir eu gwneud.

Ymgynghori

8. Nid oes rheidrwydd statudol i ymgynghori ar y Rheoliadau hyn a, gan fod y newidiadau'n rhai mân iawn a thechnegol eu natur, ni fu ymgynghori ffurfiol yn yr achos hwn.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Dewisiadau

9. **Peidio â gwneud dim** – pe na bai'r Rheoliadau presennol yn cael eu newid, byddai'r gwallau a ganfuwyd yn dal yno ym mlwyddyn academaidd 09/10. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar weithrediad y system cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru. Er enghraifft, byddai'n golygu na fyddai testun Cymraeg a thestun Saesneg *Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008* yn adlewyrchiad cywir o'r naill a'r llall.

   Gwneud y Ddeddfwriaeth – bydd gwneud y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y gwallau a ganfuwyd gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu cywiro a bod y fframwaith deddfwriaethol priodol yn ei le ar gyfer blwyddyn academaidd 09/10.

Manteision

10. Nid oes mantais o beidio â gwneud dim (yn hytrach, byddai'r gwallau yn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr ym mlwyddyn academaidd 2009/10 yn dal yno). Trwy wneud y Rheoliadau diwygio, bydd Gweinidogion Cymru, yr awdurdodau lleol a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn elwa o'r sicrwydd bod gan system cymorth i fyfyrwyr Cymru fframwaith deddfwriaethol priodol a chlir.

Costau

11. Ni ddylai'r newidiadau a gaiff eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth hon olygu costau ychwanegol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bob blwyddyn, mae'r asiantau cyflenwi (awdurdodau lleol Cymru a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr) yn gwneud asesiadau ac yn talu benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr fel y nodir gan y ddeddfwriaeth berthnasol. Ni ddisgwylir y bydd y newidiadau a gaiff eu cynnwys yn y Rheoliadau Diwygio amgaeedig yn creu beichiau ychwanegol ar gyfer yr asiantau cyflenwi.

Asesu'r Gystadleuaeth

12. Nid yw gwneud y Rheoliadau hyn yn effeithio ar fusnes, elusennau na'r sector gwirfoddol.

Ymgynghori

13. Nid oes rheidrwydd statudol i ymgynghori ar y Rheoliadau hyn a, gan fod y newidiadau'n rhai mân iawn a thechnegol eu natur, ni fu ymgynghori ffurfiol yn yr achos hwn.

Adolygu ar ôl Gweithredu

14. Caiff y prif reoliadau sy'n llywodraethu'r system cymorth i fyfyrwyr eu gwneud yn flynyddol ac maent yn cael eu hadolygu'n fanwl yn barhaus, gan swyddogion polisi a chan y partneriaid cyflenwi wrth iddynt roi'r Rheoliadau ar waith yn ymarferol.

Crynodeb

15. Mae angen gwneud y Rheoliadau diwygio hyn er mwyn sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer y rheoliadau sy'n llywodraethu'r system cymorth i fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru ym mlwyddyn academaidd 2009/10 ac i gywiro mân wallau a gwallau teipio ynddynt.